## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 26 Chwefror 2003 |
| **Amser:** | 9.00 – 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Yn Bresennol:** | |
| **Aelodau** | Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)<br><br>Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)<br><br>Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)<br><br>Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)<br><br>Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Alison Halford (Llafur, Delyn)<br><br>Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)<br><br>Glyn Davies (Ceidwadwyr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd) |
| **Swyddogion** | Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Arthur Emyr (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Peter Harding (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Martin Rolph (Cynllunio Ariannol 2) |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Marie Knox: Pennaeth MRCS |
| | Lynsey Hazzard: Dirprwy Glerc<br><br>Gareth Woodhead: Swyddog Gweinyddol |

**<u>9.00am-9.05am</u>**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.
2. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r gofyniad i ddatgan buddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5. Gwnaed y datganiadau canlynol:

Dafydd Wigley - Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac aelod o'r Undeb Awduron.

Lorraine Barrett – gwaith ei gwr yw bwcio bandiau i safleoedd sydd â thrwydded adloniant.

Rhodri Glyn Thomas – aelod o'r Pwyllgor sy'n delio â chais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008.

Rosemary Butler – Amgueddfa'r Glannau, Abertawe

1.3 Mynegodd Dafydd Wigley anfodlonrwydd am yr holl ddeunydd darllen ar gyfer y cyfarfod ac awgrymodd y dylai papurau briffio gael eu dosbarthu heb y dogfennau ategol. Eglurodd y Cadeirydd bod papurau mwy maith wedi cael eu dosbarthu ar ffurf copi caled cyn y toriad gyda chrynodebau. Teimlai na fyddai'n briodol i'r Ysgrifenyddiaeth gadw'n ôl ddogfennau a oedd wedi cael eu hanfon at y Pwyllgor.

**9.05am tan 10.00am**

**Eitem 2: Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC)**

CC 04-03(p.1); CC 04-03 (p2)

**Cyflwynwyr: Andrew Green, Llyfrgellydd, Dr Brinley Jones, Llywydd**

1. Diben y cyflwyniad oedd trafod yr adroddiad blynyddol, y cynllun corfforaethol a hynt LlGC. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd y cynllun corfforaethol yn eithaf hen erbyn hyn ac roedd LlGC yn ystyried ei ddiweddaru. Roedd cynllun gweithredol yn cael ei baratoi ar gyfer 2003-04. Roedd cynllun gweithredu wedi cael ei baratoi mewn ymateb i'r adolygiad pum mlynedd.
- Roedd gan LlGC ddau brif faes i'w datblygu sef Menter y Llyfrgell Ddigidol a Menter y Llyfrgell Agored. Roedd y Llyfrgell Ddigidol yn canolbwyntio ar roi mynediad electronig ehangach i gasgliadau'r LlGC, digideiddio a deunyddiau a oedd yn ddigidol o'r dechrau'n deg. Roedd y Fenter Llyfrgell Agored yn cynnwys y Ganolfan Ymwelwyr newydd a oedd yn cael ei chodi ar safle LlGC yn Aberystwyth. Y gobaith oedd y byddai'r Ganolfan Ymwelwyr newydd yn denu mwy o grwpiau, megis plant ysgol, i'r Llyfrgell. Roedd y siop a'r bwyty newydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ac roedd yn fwriad iddynt fod yn hunan-gyllidol. Roedd y siop a'r bwyty yn gwneud pob ymdrech i hybu cynnyrch o Gymru. Roedd yno hefyd Ganolfan Addysg newydd er mwyn helpu plant ysgol ac eraill ddysgu am gasgliadau'r Llyfrgell.
- Roedd Archif Genedlaethol Sain a Sgrîn Cymru wedi'i sefydlu ers dwy flynedd mewn partneriaeth â Sgrîn. I'r diben hwn, roedd ystafelloedd newydd wedi cael eu darparu i'r staff a hefyd ystafelloedd gwylio.
- Roedd Rhan 2 o'r Ganolfan Ymwelwyr yn cynnwys awditoriwm aml-gyfrwng gyda lle i 100 o bobl a man arddangos arbennig. Gobeithir gorffen y rhain ddechrau mis Ionawr 2004.
- Uchelgais LLGC oedd creu canolfan newydd ar gyfer haneswyr teuluol a chymunedol.
- Roedd LlGC yn pryderu am yr holl ddeunyddiau oedd ar gael ar ffurf ddigidol yn unig. Roedd yn bwysig bod defnyddwyr y Llyfrgell yn medru cael gafael ar ddeunydd o'r fath. Gobeithir y byddai'r Mesur Aelod

Preifat, a oedd ger bron Ty'r Cyffredin ar hyn o bryd, yn ymestyn yr hawlfraint i ddeunydd digidol sydd wedi'i gyhoeddi fel y gallai LlGC eu cael trwy'r cynllun adnau cyfreithiol. Nodwyd bod y Llywodraeth yn cefnogi'r Mesur Aelod Preifat, a gobeithir y bydd hynny help i'w basio.

1. Tynnodd LlGC sylw at y problemau canlynol:

- Na allent roi rhai categorïau o ddeunyddiau o'r casgliadau ar fenthyg.
- Yr anhawster i benderfynu pa bartneriaethau fyddai fwyaf buddiol i ddefnyddwyr LlGC.
- Adnoddau - sut i godi cyllid annibynnol i helpu LlGC.
- Staffio – sut i ddenu, cadw a datblygu staff gyda'r sgiliau angenrheidiol.

1. Yna cafwyd sesiwn holi ac ateb lle cafodd y pwyntiau canlynol eu gwneud:

- Adolygiad pum mlynedd - yn y cynllun gweithredu roedd ymateb LlGC i 70 o'r argymhellion yn yr adolygiad pum mlynedd. Un argymhelliad pwysig oedd y dylai LlGC chwilio am gyllid o ffynonellau amgenach. Roedd LlGC yn gweithio gydag ymgynghorydd annibynnol i baratoi strategaeth codi arian ac roedd adroddiad ar y gweill. Roedd rhan helaeth o gyllid preifat LlGC wedi cael ei fuddsoddi yn y Ganolfan Ymwelwyr. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi anfon y cynllun gweithredu at aelodau'r Pwyllgor erbyn hyn.
- Chwilfoduron y We - nid oedd modd bob amser i gael gwybodaeth o bob rhan o wefan LlGC trwy ddefnyddio chwilfodur cyffredinol. Byddai gwasanaeth newydd ar gael o'r enw "Cymru ar y We" a fyddai'n cynnig rhestr o wefannau arbenigol Cymreig. Byddai hwn yn 'siop un stop' lle gallai ymchwilydd ar-lein chwilio am unrhyw agwedd ar fywyd yng Nghymru.
- Cyllid - Roedd LlGC wedi gweld cynnydd yn ei chyllideb dros y 4 blynedd diwethaf. Trwy hyn, llwyddodd i greu swyddi newydd gyda chyflogau cymesur a oedd wedi helpu i fynd i'r afael â materion cyfle cyfartal. Ni allent ddisgwyl cael rhagor o gyllid i fynd i'r afael â datblygiadau eraill. Roedd bylchau o ran y cyllid preifat a chronfa bensiwn breifat LlGC a hynny'n bennaf am nad oedd y farchnad gyfranddaliadau ar ei gorau. Y Cynulliad oedd yn talu'r cyfraniadau i'r gronfa bensiwn ar hyn o bryd. Pe byddai angen talu cyfraniadau uwch yn y dyfodol efallai y byddai Ymddiriedolwyr y cynllun yn awyddus i ystyried newidiadau iddo. Roedd LlGC yn gobeithio denu mwy o nawdd, ond roedd yn ymwybodol o'r heriau oedd ynghlwm wrth hyn.
- Staffio - Bu angen cyflogi mwy o staff oherwydd y cynnydd a ragwelwyd yn nifer yr ymwelwyr. Roedd LlGC yn anelu at statws Buddsoddwr mewn Pobl ac roedd ymdrechion glew yn cael eu gwneud i gynyddu'r lefel o hyfforddiant drwyddi draw.
- Cysylltiadau Rhyngwladol - roedd LlGC wedi meithrin nifer o gysylltiadau rhyngwladol. Yn y dyfodol agos, byddai'r Llyfrgellydd yn teithio i Latfia ac Estonia yn y gobaith y gellid sefydlu cysylltiadau fyddai o fudd i'r naill a'r llall.
- Marchnata - derbyniodd LlGC bod ganddi ragor o waith i'w wneud i ddysgu pobl am y Llyfrgell. Roedd Rheolwr Marchnata wedi cael ei benodi yn y misoedd diwethaf ac roedd llawer wedi'i wneud ers hynny.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Angen i LlGC roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y mathau o geisiadau oedd yn dod i law gan ddefnyddwyr y we yn hytrach nag ymwelwyr.
- Angen i'r Aelodau roi sylwadau am y cynllun gweithredu sy'n deillio o adolygiad pum mlynedd LlGC erbyn diwedd Mawrth.

**10.00am -11.00am**

**Eitem 3: Adroddiad Misol y Gweinidog**

**CC 04-03(p.3)**

3.1 Rhoddodd y Gweinidog adroddiad llafar ychwanegol gan fod nifer o bethau wedi digwydd ers iddi ddosbarthu ei hadroddiad ysgrifenedig.

**Gwyl Jazz Aberhonddu**

- Roedd Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog wedi cyhoeddi pecyn o gyllid o hyd at £381,000 i helpu i sicrhau dyfodol hirdymor Gwyl Jazz Aberhonddu ac i helpu i'w chynnal yn 2003.
- Byddai grant o £111,000 yn cael ei roi i gwmni presennol Jazz Aberhonddu fel taliad unwaith ac am byth i dalu dyledion hirdymor a oedd wedi bygwth dyfodol yr wyl.
- Byddai swm o £270,000 yn cael ei roi dros 3 blynedd i gwmni newydd fyddai'n cael ei sefydlu o dan nawdd Theatr Brycheiniog. Y cwmni newydd fydd yn trefnu'r wyl yn 2003 ac roedd £90,000 wedi cael ei roi eisoes at y diben hwnnw.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd:

- Roedd yr aelodau'n croesawu'r pecyn newydd o gyllid ar gyfer Gwyl Jazz Aberhonddu. Cydnabyddwyd bod yr wyl yn dod â sylw byd-eang ac incwm sylweddol i drefi lleol trwy dwristiaeth.
- Eglurodd y Gweinidog mai'r rheswm dros ffurfio cwmni newydd i drefnu'r wyl oedd helpu i wneud yr wyl yn hunan-gynhaliol ac i gyflogi gweinyddwyr proffesiynol yn lle gwirfoddolwyr.

**Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC)**

- Roedd y Gweinidog wedi cyhoeddi y byddai £1 miliwn arall yn cael ei roi i dalu'r taliadau hanfodol yr oedd angen eu gwneud yn ystod y 6 mis nesaf.
- Yn sgil archwiliad gan KPMG daethpwyd i'r casgliad bod gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr wedi effeithio ar incwm GFGC a bod angen buddsoddiad hirdymor arni.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd:

- Croesawodd yr Aelodau'r cyllid ychwanegol ar gyfer GFGC, ond roedd amheuon ynghylch defnyddio arian cyhoeddus i gynnal atyniadau i ymwelwyr nad oedd yn llwyddo. Credwyd bod rôl wyddonol yr Ardd yn deilwng o gefnogaeth y cyhoedd. Serch hynny, roedd angen strategaeth hirdymor.
- Cadarnhaodd y Gweinidog bod yr arian ychwanegol wedi cael ei roi gan y Gweinidog Cyllid ac na fyddai'n dod o'r Gronfa Ddiwylliant.
- Nododd y Gweinidog bod adroddiad KPMG wedi dod i'r casgliad nad oedd GFGC yn gwastraffu arian ond bod cyllid yn brin.
- Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y Gweinidog nad oedd GFGC wedi datblygu'n llawn fel atyniad i ymwelwyr a bod argyfwng clwy'r traed a'r genau a'r tywydd gwael dros y ddwy flynedd diwethaf wedi cyfrannu at hyn.
- Cytunodd y Gweinidog bod GFGC yn fwy nag atyniad i ymwelwyr yn unig ac roedd datblygu'r ochr wyddonol ac addysgol yn hanfodol bwysig.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Gweinidog bod rhywogaethau o blanhigion prin o Gymru yn tyfu yn yr Ardd.
- Awgrymodd un o'r Aelodau y dylai GFGC ystyried arddangos gardd gwmpawd gan Barry Mayled yn dilyn yr arddangosfa yn Sioe Flodau Chelsea.

- Cytunodd y Cadeirydd i wahodd GFCG i gyfarfod o'r Pwyllgor ar 26 Mawrth.

**Pwynt Gweithredu**

- Roedd angen i'r swyddogion roi gwybodaeth fanylach am sefyllfa ariannol a strategaeth hirdymor Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ac roedd angen i'r Ysgrifenyddiaeth drefnu bod cynrychiolwyr GFCG yn bresennol ar 26 Mawrth.

**Mesur Trwyddedu**

- Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ateb llythyr y Gweinidog oedd yn mynegi pryderon am oblygiadau'r weithdrefn drwyddedu newydd ar fywyd diwylliannol yng Nghymru.
- Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cydnabod y dylid bod wedi ymgynghori â'r Cynulliad am y Mesur a rhoddodd sicrwydd y byddai'r Gweinidog yn cael y wybodaeth ddiweddaraf o hyn ymlaen.
- Roedd dau gonsesiwn calonogol wedi cael eu gwneud i'r Mesur: byddai addoldai cyhoeddus yn cael eu heithrio o'r gyfundrefn drwyddedu yn gyfan gwbl ac ni fyddai angen i neuaddau cymunedol, neuaddau pentref, neuaddau eglwysi ac ati dalu ffi, er y byddai'n rhaid iddynt gael trwydded.
- Hefyd, byddai'r mesur yn cael ei ddiwygio i wneud yn siwr na fydd cerddorion yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am berfformio mewn mannau heb drwydded os nad ydynt yn gyfrifol naill ai am reoli'r safle neu am drefnu'r digwyddiad.
- Roedd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi sefydlu gweithgor i roi cyngor ynghylch paratoi'r canllawiau a fyddai'n cael eu cyhoeddi pan fyddai'r ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi derbyn gwahoddiad i wasanaethu ar y gweithgor, ac felly byddent yn medru gwneud yn siwr bod yr ochr Gymreig yn cael ei hadlewyrchu yn y canllawiau.
- Anogwyd Aelodau'r Pwyllgor i gysylltu â'r Gweinidog Gwladol yn uniongyrchol i leisio barn.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd:

- Mewn ymateb i gwestiwn eglurodd y Gweinidog nad oedd trwyddedu wedi cael ei ddatganoli. Felly, roedd hi'n annhebygol y gallai Cymru gael ei heithrio o'r Mesur neu y gellid rhoi pwer i'r Cynulliad i amrywio ei gyflwyniad trwy Orchymyn.
- Serch hynny, dywedodd y Gweinidog y byddai'n cysylltu â DCMS i weld a oedd modd i'r Mesur fod yn fwy hyblyg fyth.

**Pwynt Gweithredu**

- Y Gweinidog i roi mwy o wybodaeth am: y sefyllfa gyfreithiol o ran eithrio Cymru o'r Mesur neu roi pwer i'r Cynulliad i amrywio ei gyflwyniad trwy Orchymyn; ac am y costau gweinyddol o wneud cais am drwyddedau a phwy fydd yn gyfrifol am eu talu; ar ôl cael y cyfryw wybodaeth.

**Cerddorfeydd Siambr**

- Roedd y Gweinidog wedi cyhoeddi cynllun tair blynedd i barhau â'r gwaith o ddatblygu cerddorfeydd siambr yng Nghymru.
- Roedd £600,000 wedi cael ei neilltuo i gynorthwyo'r cynllun rhwng 2003 a 2006, ac roedd £200,000 yn cael ei gynnig bob blwyddyn.

- Yn y flwyddyn gyntaf bydd Cerddorfeydd yn medru gwneud cais am gyllid blwyddyn yn dilyn gwaith datblygu a gwaith allgymorth. Bydd ceisiadau am ragor o gyllid yn cael eu hystyried yn y dyfodol.
- Cynigir rhwng £5,000 a £60,000. Gellir cael canllawiau a ffurflenni cais oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC).

**Cyfrifiad 2001**

- Mewn ymateb i ymholiad dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau mai Swyddfa'r Ystadegau Gwladol oedd yn rhoi manylion am ffigurau'r Cyfrifiad.

**Pwynt Gweithredu**

- Bydd y Gweinidog yn rhoi dadansoddiad a gwybodaeth mor fanwl â phosibl am ffigurau'r Cyfrifiad ar yr iaith Gymraeg erbyn y cyfarfod ar 29 Mawrth.

**Y Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol**

- Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau na fydd yn ystyried yr Adroddiad ar y Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol cyn yr etholiad.

**Y Loteri Genedlaethol**

- Cadarnhaodd y Gweinidog wrth yr aelodau y byddai'n defnyddio ei chyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y diwrnod canlynol i ofyn a ellid datganoli mwy o bwerau ar gyfer dosbarthu arian y Loteri yng Nghymru.

**Swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Cymru**

- Mewn ymateb i gwestiwn dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau na fyddai prydles swyddfa CCC yn Ne-ddwyrain Cymru yn dod i ben tan 2005. Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw gynlluniau pendant i symud tan ar ôl hynny.

**Prifddinas Diwylliant**

- Mewn ymateb i ymholiadau dywedodd swyddogion y Gweinidog wrth yr Aelodau bod cyllid wedi cael ei roi ar gyfer cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop. Dibe y cyllid oedd helpu Caerdydd i gwrdd â meini prawf DCMS a'r beirniaid. Roedd angen cyllid ychwanegol hefyd am fod yr amserlen ar gyfer dethol wedi cael ei hymestyn ac roedd angen strategaeth pe digwyddai i gais Caerdydd fethu.

**Gwyl Llangollen**

- Gofynnodd rhai Aelodau am adroddiad am y cyllid ar gyfer Gwyl Llangollen a buddiannau'r cyllid hwnnw. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau bod CCC yn delio â'r mater hwn yn ei adolygiad o wyliau celf.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Gwybodaeth i gael ei rhoi am y cyllid i Wyl Llangollen.

- Y Gweinidog i roi'r fersiwn ddiweddaraf o'r adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor yn seiliedig ar amserlen Cymru'n Creu.
- Y Gweinidog i roi'r fersiwn ddiweddaraf o'r matrics Diwylliant Cytûn/Cymru Greadigol i'r Pwyllgor.

**Arddangosfa Celf a Chrefft Ewrop**

- Cytunodd y Gweinidog â cheisiadau'r Aelodau i ofyn am gyllid fel y gallai Cymru dderbyn y gwahoddiad i fynd ag arddangosfa i Arddangosfa Celf a Chrefft Ewrop ym Mrwsel ar ran y Deyrnas Unedig.

**Egwyl: 11.00am -11.15am**

**<u>11.15am tan 12.00pm</u>**

**<u>Eitem 4: Adolygiad o'r Polisi Chwaraeon: Drafft Cyntaf o'r Adroddiad Terfynol</u>**

**CC 04-03 (p4)**

**Cyflwynydd: Marie Knox, MRCS**

1. Nod yr eitem hon oedd ystyried y drafft cyntaf o'r adroddiad terfynol a baratowyd gan MRCS. Yn ystod y drafodaeth gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Cytunwyd bod y pwyllgor yn fodlon â'r adroddiad drafft.
- Dylai crynodeb gweithredol gael ei gynnwys.
- Gofynnwyd a ellid cynnwys lluniau yn yr adroddiad i'w wneud yn fwy deniadol i ddarllenwyr.
- Rôl awdurdodau lleol - cafwyd peth trafodaeth a ellid corlannu arian i helpu awdurdodau lleol i ddarparu 'r gwasanaethau angenrheidiol ac a ddylai fod rheidrwydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Serch hynny, ni chafwyd unfrydiaeth barn ar y pwyntiau hyn. Cytunwyd y dylid gofyn i Gyngor Chwaraeon Cymru am fanylion eu harchwiliad o bob awdurdod lleol fel y gellid ystyried y mater ymhellach. Awgrymwyd y dylid cynnal cynhadledd flynyddol fel canolbwynt ar gyfer datblygiadau awdurdodau lleol mewn perthynas â chwaraeon.
- Dull cydlynus o weithredu - roedd goblygiadau ar gyfer iechyd, addysg a llywodraeth leol y dylid eu hystyried gan bwyllgorau eraill. Mater i'r pwyllgorau newydd ar ôl yr etholiadau fyddai hwn.
- Targedau ffitrwydd - cafwyd trafodaeth ynghylch a allai pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer cyfranogiad ddigaloni'r rhai na fedrai eu cyrraedd.
- Er mwyn denu mwy o bobl i chwaraeon, dylid ehangu ei apêl trwy gyflwyno ystod fwy eang o chwaraeon.
- Awgrymwyd y dylid annog cyrff llywodraethu chwaraeon i weithio'n fwy cydlynus a thrwy hynny gydweithredu'n fwy effeithiol.
- Cyflogwyr - dylid annog cyflogwyr i roi cyfle i'w staff wella eu ffitrwydd. Awgrymwyd y gellid annog cyflogwyr i wneud hyn trwy ddarparu cynllun gwobrwyo tebyg i gynllun Buddsoddwyr mewn Pobl i gydnabod eu hymrwymiad.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Gofynnwyd i MRCS roi drafft arall o'r adroddiad erbyn y cyfarfod nesaf.
- Gofyn i Gyngor Chwaraeon Cymru am fanylion eu harchwiliad o awdurdodau lleol.
- Dylai unrhyw syniadau neu awgrymiadau mewn perthynas â'r adroddiad gael eu rhoi i'r Ysgrifenyddiaeth erbyn diwedd yr wythnos.

-

**12.00pm tan 12.20pm**

**Eitem 5: Astudiaeth o'r Posibiliadau: Adolygiad o'r Polisi ar Ddiwylliant Eingl-Gymreig**

CC 04-03 (p5); CC 04-03 (p6)

1. Pwrpas yr astudiaeth o'r posibiliadau oedd gwneud gwaith rhagarweiniol ar gyfer adolygiad mwy trwyadl gan y pwyllgor olynol. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Awgrymwyd y dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar agwedd neilltuol o'r diwylliant Eingl-Gymreig rhag i'r pwnc brofi'n rhy eang i'r pwyllgor olynol. Awgrymwyd y dylid canolbwyntio ar gefnogi llenyddiaeth Eingl-Gymreig megis rhyddiaith a barddoniaeth, ac ysgrifennu ar gyfer y theatr, teledu a ffilm. Serch hynny, nodwyd ei bod yn bwysig hefyd bod darllen yn cael ei annog fel bod gan awduron farchnad ar gyfer eu gwaith.
- Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor olynol wahodd Cyngor Llyfrau Cymru atynt cyn gynted â phosibl i sôn am eu gwaith ac i gynnig awgrymiadau i'r Pwyllgor.
- Dylid rhoi ystyriaeth i'r angen am ymgynghorydd arbenigol.

**12.20pm tan 12.30pm**

**Eitem 6: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHM Cymru)**

**CC-04-03 (p7)**

**Cyflwynydd: Martin Rolph**

1. Nod y cyflwyniad oedd rhoi cyfle i'r Aelodau roi sylwadau ar yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i adolygiad pum mlynedd RCAHM Cymru. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr adolygydd o'r farn y dylai RCAHM Cymru gael ei gyfuno gyda Cadw yn yr hirdymor. Serch hynny, gan fod CADW yn cael ei adolygu gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ni ellid mynd ar y trywydd hwn ar hyn o bryd.
- Awgrymwyd y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ddod â RCAHM Cymru dan reolaeth y Cynulliad, fel oedd wedi digwydd gyda CyMAL.
- Roedd Cam 1 o'r Adolygiad yn ystyried a oedd angen y corff o gwbl. Byddai gwerth am arian o ran RCAHM Cymru yn cael ei ystyried yng Ngham 2 yr adolygiad, ar ôl cytuno ar Gam 1.

**12.30pm**

**Eitem 7: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**CC 03-03 (min)**

1. Cytunodd yr aelodau ar gofnodion y cyfarfod blaenorol ar 5 Chwefror 2003.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau Chwefror 2003**